Y Ddraig Khaki – Mapio'r Lluoedd Arfog yng Nghymru

Tuag at Ddifilitareiddio Cymru

Bwriad y *Ddraig Khaki* yw dangos cyfraniad adnoddau naturiol a dynol Cymru tuag at baratoi ac ymladd rhyfel. Gellir defnyddio'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad yma ar gyfer lobio, ymgyrchu a datblygu polisi ar gyfer Difilitareiddio Cymru. Er enghraifft:

- I godi ymwybyddiaeth o faint yr adnoddau Cymru sy'n cyfrannu tuag at ryfel.
- I gynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau ar lefel y llywodraeth Brydeinig, llywodraeth y Cynulliad a llywodraeth leol ar faterion megis datblygiad economaidd, cefnogaeth i ymchwil, a phecynnau adnewyddu
- Adnabod lleoliadau milwrol neu ffatrïoedd sy'n cyfrannu tuag at ryfela.
- Adnabod meysydd ymchwil pellach.

Prif feysydd yr adroddiad

Mae'r adroddiad yma, fel cam cyntaf mewn prosiect sy'n mynd i barhau, yn adnabod pedwar prif faes lle mae Cymru yn gwneud cyfraniad tuag at filitariaeth. Gobeithir yn y dyfodol i ychwanegu gwybodaeth fanylach am y meysydd yma. Bydd yr adroddiad yma ac unrhyw ychwanegiadau i'w gael ar wefan rhwydwaith heddwch a chyfiawnder Cymru gyfan:

www.cynefinywerin.org

Tir
Defnyddir tir, awyr a'r môr o gwmpas Cymru ar gyfer hyfforddi lluoedd arfog Prydain. Rhestrir yn yr adran hon brif leoliadau hyfforddiant y Fyddin, y Llynges a'r Awyrlu Prydeinig.

Pobl
Mae Cymru yn wlad bwysig o ran recriwtio i'r lluoedd arfog.
Amlinellir yn yr adran hon weithgareddau recriwtio'r lluoedd arfog yng Nghymru, yn enwedig y gweithgaredd gyda phlant a phobl ifanc.

Gwybodaeth
Cyfrennir tuag at ddatblygiad technoleg filwrol allweddol gan brifysgolion Cymru.
Disgrifir yn yr adran hon prif ffynonellau ariannu llywodraeth Prydain ar gyfer ymchwil filwrol.

Menter
Mae'r cwmnïau sy'n cynhyrchu arfau ac offer angenrheidiol i'r lluoedd arfog yn rhan bwysig o economi Cymru.
Rhestrir yn yr adran hon y cwmnïau yng Nghymru sy'n cynhyrchu a chyflenwi nwyddau militaraidd

Cymru Ddifilitaraidd
Ceir awgrymiadau yn yr adran olaf yma am lobio a datblygu polisïau i arall gyfeirio adnoddau Cymru o weithgareddau milwrol i weithgareddau heddychlon.

Atodiad
Mae'r atodiad yn cynnwys ffynonellau gwybodaeth bellach.

Rhagair

Gwlad heddychlon?

Rydym yn falch o'r ffaith fod Cymru yn wlad fach sydd heb ymladd rhyfel yn ei henw ei hun ,a heb oresgyn gwlad neu bobl arall drwy rym milwrol. Mae gan Gymru draddodiad hir o heddychiaeth wedi ei seilio ar Gristnogaeth anghydffurfiol neu ar sosialaeth wrth-imperialaidd. Roedd yna elfen gref o heddychiaeth yn y dymuniad cenedlaetholgar i adeiladu Cymru fel cenedl rydd o filitariaeth Lloegr.

Clywir y gri bob blwyddyn yn yr Eisteddfod Genedlaethol *A Oes Heddwch*? Ac mae'r gynulleidfa *Oes*. Cyflwynir neges ewyllys da yn flynyddol gan blant yr Urdd i blant y byd. Mae'r diwylliant heddychlon yma yn effeithio ar farn y genedl Gymreig. Pan ofynnodd cwmni diodydd yn ddiweddar, yn ôl adroddiad yn y *Western Mail,* i bobl ifanc o dan 25 oed beth oedd ei dymuniad ar gyfer y Nadolig atebodd 34% yng Nghymru "heddwch byd" tra bod llai na 10% wedi rhoi'r un ateb yn yr Alban a Lloegr.

Ond ni allwn anwybyddu'r ffaith of adnoddau Cymru yn cael ei defnyddio'n feunyddiol ar gyfer y peiriant rhyfel. Recriwtir milwyr o ardaloedd diweithdra uchel yng nghymoedd De Cymru ac o blith myfyrwyr disglair. Hyfforddir hwynt ar fynyddoedd, lle y dinistriwyd ffermydd a chymunedau cyfan gan y fyddin a hefyd ym mharciau cenedlaethol Cymru. Defnyddir sgiliau ymchwilwyr prifysgol a masnachol, a dyfeiswyr yn feunyddiol i ddatblygu arfau, rocedi, a dulliau cyfathrebu milwrol newydd. Gweithia cannoedd o dechnegwyr, mechnïyddion a chrefftwyr ar bob math o gytundebau milwrol mewn busnesau mawr a bychan ar draws Cymru.

Yn 1936, disgrifiodd Saunders Lewis ei weledigaeth ar gyfer yr ugeinfed ganrif wedi iddo gael ei arestio am losgi'r ysgol fomio ym Mhen y Berth yn Llyn:-

" Pennaf nod yr awyrblaniau fydd dinistrio dinasoedd ,eu llosgi a'u gwenwyno, troi gwareiddiad y canrifoedd yn ulw, gollwng i lawr, allan o ddiogelwch yr awyr yr angau creulonaf ar wragedd a phant a gŵyr di-arf a diamddiffyn...Bydd yr awyrblaniau yma mor niferus a nerthol fel na fydd y perygl i'r bomwyr ond bychan. Mewn gwaed oer yr hyfforddir hwynt; mewn byr amser daw'r gelfyddyd yn arferiad; a phan ddisgynnant i'r ddaear wedi gorffen distryw gwareiddiad a chyflawni'r anfadwaith pennaf yn hanes creadigaeth Duw, os gofyn un iddynt wedyn 'Ym mhle y'ch hyfforddwyd chi?' yr ateb fydd, 'Ym Mhorth Neigwl yn Llŷn ac yng nghyffiniau Ynys Enlli a Ffordd y Pererinion a Saint Cymru"

Gobaith yr adroddiad yma yw y bydd fwy o'n cyd- Gymry yn cytuno gyda'r camddefnydd hwn o dir, a phobl a thalentau ein gwlad.

Tir

Rheolir 140 o leoliadau yng Nghymru gan y Weinyddiaeth Amddiffyn gan gynnwys llety, tir hyfforddi, stordai, meysydd awyr, dociau a chyfleusterau cyfathrebu. Adnabyddir Cymru gan y Llu Awyr fel *'Low Flying Area 7'*, gan fod yr awyr yn cael ei ddefnyddio i hyfforddi peilotiaid awyrennau ymladd jet.

Effaith tir hyfforddi milwrol ar gymunedau

Dinistriwyd cymunedau er mwyn i'r milwyr gael tir hyfforddi. Dinistriwyd cymunedau o ffermwyr ar gyfer Castellmartin ym Mhenfro yn 1938 ac ar fynydd Epynt yn 1941. Dinistriwyd ffermdy hanesyddol Pen y beth yn Llyn ar gyfer yr ysgol fomio a arweiniodd at brotest enwog "Y Tân yn Llyn" gan Saunders Lewis, D.J.Williams a Lewis Valentine.

Collwyd hawl tramwyo ar ddarnau helaeth o gefn gwlad Cymru, sy'n fath arall o ddwyn tir gan y fyddin. Ceisiodd y Weinyddiaeth Amddiffyn roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith fod cerddwyr yn gallu mynd ar draws ei ystadau ond ni cheir mynediad yn aml oherwydd bod ymarferion saethu byw yn digwydd yno. Mae hyn yn arbennig o wir am dir Castellmartin sef y darn mwyaf o dir y Weinyddiaeth Amddiffyn yng Nghymru.

Tarfu'r ar yr heddwch gan hyfforddi milwrol drwy sŵn trafnidiaeth filwrol ar ffyrdd, sŵn y saethu, a sŵn ofnadwy awyrennau sy'n hedfan yn isel..

Effaith tir hyfforddi milwrol ar yr amgylchfyd.

Rhestrir effaith negyddol presenoldeb milwrol mewn parciau cenedlaethol mewn papur trafod gan Gyngor y Parciau Cenedlaethol megis dinistr i'r tirlun, cofebion a bywyd gwyllt wrth saethu. Hefyd y modd y difwynir yr amgylchfyd gan ddefnydd o gerbydau trwm a'r tuedd i sefydliadau milwrol dyfu gan ychwanegu at y nifer o ffyrdd mewn ardaloedd a fu gynt yn ddiarffordd.

Y Prif Fathau o Sefydliadau Milwrol

Mae'r rhestr yn cynnwys yn fras y canlynol:

Ardaloedd Hyfforddi a saethu'r Fyddin
Meysydd awyr y Llu Awyr
Canolfannau'r Llynges
Llety i'r Lluoedd Arfog
Ystorfeydd

Ychwanegir manylion pellach am y rhain ar y wefan.

Ardaloedd Hyfforddi a saethu'r Fyddin

Sefydlwyd Ystâd Hyfforddi'r Fyddin (YHF) yng Nghymru yn 1999 fel rhan o YHF y DU gyda phencadlys ym Mhont Senni . Mae ardaloedd hyfforddi'r fyddin yn ymestyn dros 44,600 o erwau (18,000 hectar) ac maent yn cael ei defnyddio bron bob dydd o'r flwyddyn gan filwyr cyffredin, milwyr y Fyddin Diriogaethol, a chadetiaid ar gyfer ymarferiadau maes y gad a hyfforddiant arfau. . Mae'r Ganolfan Hyfforddi'r Milwyr Traed (GHMT) yng Nghymru yn Aberhonddu yn hyfforddi milwyr mewn ystod eang o weithgareddau megis tactegau, saethu cudd, a rheoli safleoedd saethu. Cyflogir gan y

Ganolfan 275 o staff milwrol a 250 o weithwyr cyffredin gan hyfforddi tua 2,700 o staff y flwyddyn.

Headquarters ATE Wales
Sennybridge Camp, Aberhonddu, Powys LD3 8PN
Telephone: 01874 635599
E-mail: ATEWALES@senta.enta.net

Infantry Training Centre Wales
Dering Lines
Aberhonddu LD3 7RA
01874 613 662

Sennybridge Army Field Training Centre
Pontsenni, ger Aberhonddu, Powys 30,000 erw (12,150 hectar)
Hwn yw'r ardal hyfforddi trydydd fwyaf yn y DU. Symudwyd trigolion pentref Cilcenni a'r ffermwyr o Fynydd Epynt o dan ddeddfau gorfodaeth rhyfel yn 1941. Yna ar safle pentref Cilcenni yn 1989 codwyd pentref ffug ar ffurf un o bentrefi dwyrain Ewrop am gost o £7 miliwn i hyfforddi milwyr i ymladd o stryd i stryd.

Kinmel Park Training Camp
Ger Y Rhyl 6,500 erw (2,650 hectar)
Ceir llety yma i 250 o filwyr ; lle i saethu arfau bychain; ac ardal hyfforddi saethu heb fwledi byw. Mae hefyd yn ganolfan ar gyfer hyfforddi anturus oddi fewn Parc Cenedlaethol Eryri .

Caerwent Training Area
Ger Casnewydd 1,500 erw (600 hectar)
Ceir system rheilffyrdd ac o ffyrdd yma ar gyfer ymarferiadau a hyfforddi gyrwyr.

Castellmartin Ranges 5,900 erw (2390 hectar)
Ger Penfro
Ardal hyfforddi saethu byw a gyrru cerbydau arfog. Mae'r ardal saethu yn mynd i'r môr.

Royal Artillery Range Manorbier
Dinbych y Pysgod 102 erw (41 hectar)
Ardal hyfforddi'r Awyrlu. Mae'r ardal sy'n beryglus oherwydd y saethu byw yn ymestyn am 220 milltir sgwâr, gan gynnwys 13 milltir allan i'r môr a 50,000 troedfedd uwchben y ddaear.

Penally Training Camp
Ger Dinbych y Pysgod Tua 300 erw (125 hectar)
Llety a chanolfan hyfforddi

Templeton Training Area
Ger Dinbych y Pysgod Tua 300 erw(125 hectar)
Hen faes awyr a ddefnyddir ar gyfer ymarferiadau amddiffyn yr awyr a hofrenyddion.

Rogiet Moor Rifle Range
ger Caldicot
Mae yna ardal beryglus sy'n ymestyn filltir i'r môr.

Aberporth
Aberporth, Ceredigion
Canolfan saethu taflegrau o'r tir, y môr a'r awyr . Rheolir y safle gan Gwmni preifat *Qinetiq.* Mae Aberporth hefyd yn ganolfan gyfathrebu.

Cwrt-y-Gollen Training Camp
near Crickhowell 25 erw (60 hectar)
Canolfan hyfforddi anturus i gadetiaid

Joint Services Mountaineering Training Centre
Ynys Môn

Joint School for Adventure Training Instructors
Llanrwst

Meysydd Awyr a gofod awyr yr RAF

RAF Valley and Mona
Ynys Môn
Mae'r orsaf yma yn hyfforddi peilotiaid yr RAF a'r Llynges Brydeinig.

Defence and Repair Agency (DARA)
Sain Tathan ,
DARA yw unig uned cynnal a chadw'r RAF. Mae ganddynt gyllideb o £100 miliwn y flwyddyn . Cyflogir tua 1500 o filwyr a 3,000 o weithwyr cyffredin. Hefyd ceir yma Glwb Sadwrn Peirianyddol ar gyfer pobl ifanc.

RAF Seland
Ger Cei Connah
Ysgol saethu a gleidio.

RAF Pembrey Sands
Burry Port
Ardal fomio a saethu.

Fairbourne Resource and Initiative Training Centre
Fairbourne, Gwynedd
Ysgol Hyfforddi Corff yr RAF

Gofod Awyr
Mae'r darnau o ofod Ardal 7 a 9 ar gyfer hedfan yn isel sy'n cynnwys Cymru gyfan y gellir ei "ddefnyddio" yn ymestyn dros 7,774 milltir sgwâr. Mae hwn yn 11% o gyfanswm ardal hedfan isel y DU.

Cyfartaledd yr hedfan dros Gymru rhwng 2001 a2004 oedd bron 7,000 o oriau'r flwyddyn. Roedd tua 70% o hwn gan awyrennau adenydd sefydlog ('*fixed wing*') roedd y gweddill gan hofrenyddion Rhwng 1980 a1991 roedd 26 o ddamweiniau gan awyrennau milwrol yng Nghymru. .

Canolfannau'r Llynges

Defence Estates Pendine
Caerfyrddin
Defnyddir y ganolfan yma i brofi taflegrau gyda chyfleusterau sy'n cynnwys traciau cyflymu arfau, twr gollwng ffrwydron, a thrac rheilffordd ar gyfer gwrthdaro taflegrau. Dyma Ganolfan Arbrofi Rhanbarth Ewrop NATO a'r DU ar gyfer arfau bychain. Ceir yma hefyd 9 cilomedr o draeth ar gyfer ymarferiadau awyr .

Wales University Royal Navy Unit
HMS Express, Penarth Marina, Bae Caerdydd
Mae'r uned yn hyfforddi myfyrwyr mewn sgiliau morwriaeth ac arweinyddiaeth.

Pembroke Marine Salvage Depot
Penfro

Ystorfeydd

Defence Storage Distribution Centre Llangennech
Llanelli, Sir Gaerfyrddin

Defence Manufactures Council Kineton
Pontsenni, Powys

Sennybridge Temporary Compound
Pontsenni, Powys

Defence Procurement Agency Seismic Station
Llanuwchllyn
Mae gorsafoedd amddiffyn seismig yn gallu monitro profion arfau niwclear.

Llety'r Lluoedd Arfog

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi gwerthu peth o'r stoc dai yng Nghymru ac mae'r sefyllfa yn debyg o newid. Mae yna 21 lleoliad llety i deuluoedd y lluoedd arfog yng Nghymru a 98 barics ar hyn o bryd. Mae rhestr o'r rhain i gael oddi wrth y Ddraig Khaki .

Pobl

Recriwtio

Cymru yw un o'r gwledydd pwysicaf ar gyfer recriwtio i luoedd arfog Prydain. Mae tua 8% o'r holl bobl a Recriwtir yn dod yn flynyddol o Gymru er bod y wlad yn cynnwys dim ond 5% o boblogaeth Prydain.

Disgwylir i'r Asiantaeth Hyfforddi a Recriwtio'r Fyddin (AHRF) recriwtio tua 15,000 o bobl a hyfforddi 100,000 o filwyr y flwyddyn ar gyllideb flynyddol o rhwng £600-700miliwn. Os defnyddir tua 8% o'r gyllideb yma ar recriwtio a hyfforddi milwyr o Gymru yna mae hynny yn golygu fod tua £48 miliwn y flwyddyn yn cael ei wario yma.

Mae'r tabl isod yn dangos y nifer recriwtiwyd yn y flwyddyn Ebrill 2003 – Mawrth 2004.

Ceir syniad o'r niferoedd ,lleoliad a dosbarthiad y rhai a Recriwtir ar draws y gwahanol luoedd arfog ond wrth gwrs mae'r ffigurau yn debygol o amrywio yn flynyddol.

	Caerdydd	Abertawe	Wrecsam	Cyfanswm
Llynges	29	73	74	176
Byddin	279	391	234	904
Awyrlu	147	99	94	340
	455	**563**	**402**	**1420**

Gwell gan y lluoedd arfog sôn am yrfaoedd yn hytrach na recriwtio. Gelwir y swyddfeydd recriwtio yn " Swyddfeydd Gyrfaoedd y Lluoedd Arfog" . Hysbysebir y "swyddi gwag" recriwtio yn y Canolfannau Gwaith. Os ceisiwch chwilio ar y cyfrifiadur am swydd mewn arlwyaeth yn y gorllewin neu mewn peirianwaith yn Abertawe, fe gewch restr o swyddi heb enwi'r cyflogwr. Dim ond pan rydych yn gofyn am fanylion pellach am y swydd fel un sy'n ceisio am waith y sylweddolwch fod angen i chi ymuno yn y Lluoedd Arfog.

Pan gymharwch y cyflog a'r hyfforddiant a gewch yn y fyddin i gymharu gyda mynediad heb sgiliau i swyddi eraill mae'n ymddangos yn ddeniadol. Mae pobl sydd newydd ymuno a'r fyddin yn cael £11,700,ac ar ôl pedair blynedd o hyfforddiant mae milwr yn gallu cael cyflog rhwng £16,800 a £18,800. Hefyd fel mae hysbyseb y fyddin yn egluro "ni ellwch gymharu yn uniongyrchol gyda chyflog y tu allan i'r lluoedd arfog oherwydd mae'r fyddin yn aml yn talu eich costau byw."

Byddin Diriogaethol (BT)

Lleolir 23 Uned o'r Fyddin Diriogaethol (BT) ac un uned o'r *Royal Marines Reserve* yng Nghymru . Gwelir ar ddiwedd yr adran hon rhestr sy'n dangos fod yna unedau ymladd, meddygol, peirianyddol a chyfathrebu. Mae'r lluoedd wrth gefn yma yn cyfrif am Gwarter o'r holl Fyddin Brydeinig. Amcangyfrifir fod tua 3,500 i 4000 o filwyr yn aelodau o'r Fyddin Diriogaethol yng Nghymru ,os ydynt yn recriwtio ar yr un raddfa a'r lluoedd arfog yn gyffredinol.

Cymdeithas Cadetiaid a Lluoedd Tu Cefn Cymru sy'n recriwtio a gweinyddu ar gyfer yr holl luoedd tu cefn a chadetiaid yng Nghymru. Ceir manylion y prif ddigwyddiadau recriwtio yng Nghymru ar ei gwefan:
www.rfca-wales.organisation.uk 0845 702 3930

Recriwtir pobl rhwng 17 a 32 oed i'r Fyddin Diriogaethol . Mae'r milwyr yn ymuno am dair blynedd a disgwylir iddynt gael hyfforddiant am tua 27 dydd y flwyddyn. Mae yn

bosib iddynt gael ei galw yn orfodol i ymladd. Derbyniad milwyr y Fyddin Diriogaethol yr un cyflog y dydd á milwyr cyffredin (gan ddechrau ar £30 y dydd gan godi wedi gwasanaeth hirach) yn ogystal â bonws blynyddol yn dechrau ar £330. Disgrifir y Fyddin Diriogaethol wrth recriwtio fel "Gwaith gwahanol, heriol, gwerth ei wneud" gan roi bywyd cymdeithasol diddorol, chwaraeon a hyfforddiant anturus.

Pobl Ifanc

Mae 61 Cynghorydd Gyrfaoedd yn gweithio gydag ysgolion a phrifysgolion ar draws Prydain gan yr Asiantaeth Hyfforddi a Recriwtio'r Fyddin. Mae'r gweithgareddau sy'n targedi bobl ifanc yn cynnwys:-

Ffeiriau Gyrfaoedd mewn ysgolion a phrifysgolion

Mae yna duedd i rai ysgolion anfon disgyblion sy'n llai disglair yn academaidd i fynychu'r digwyddiadau yma sy'n cynnwys gweithgareddau anturus, pan fydd y rai disglair yn ymweld á phrifysgolion

Ceir galw mawr am bobl gyda sgiliau uchel gan yr Awyrlu ac felly mae recriwtio graddedigion yn bwysig iddynt. Ni welir swyddogion recriwtio'r Awyrlu yn aml yng Nghymoedd y de neu mewn ysgolion cyfun gan ei body n treulio eu hamser yn bennaf mewn prifysgolion ac ysgolion bonedd. Rhoddir cefnogaeth sylweddol i israddedigion sy'n diddori yn yr Awyrlu. Disgrifiodd un swyddog recriwtio fel yr oedd yn cadw mewn cyswllt a phob un oedd yn ymholi yn ystod ei tair blynedd yn y brifysgol, gan ei meithrin a'u mentora a gofalu am eu cynnydd a'u cyllid.

Arf recriwtio graddedigion i'r lluoedd arfog yw Corff Hyfforddi Swyddogion y Brifysgol (CHSB). Ond yn ôl amcan gyfrif anffurfiol gan yr Asiantaeth Hyfforddi a Recriwtio dim ond tua 20% o'r Cadetiaid sy'n ymuno a'r fyddin ar ôl iddynt gael gradd. Rôl bwysicaf y CHSB yw creu "delwedd dderbyniol o'r Fyddin ar y campws" yn ôl un swyddog recriwtio.

Gweithgareddau Ieuenctid

Cyllida'r Weinyddiaeth Amddiffyn nifer o raglenni i bobl ifanc sydd wedi ei dieithrio. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglen gan y Cadetiaid a gyllidir yn rhannol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn , Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Adran Addysg a Sgiliau. Trefnir cyrsiau undydd a ddilynir gan bedwar diwrnod preswyl o hyfforddi anturus i droseddwyr ifanc neu rai sydd cael ei hystyried mewn perygl o droseddu .

Darperir gweithgareddau ieuenctid ,dan yr enw "Pathfinder", am ddim i ysgolion gan y lluoedd arfog sy'n cefnogi'r cwricwlwm cenedlaethol. Ystyrir y rhain gan y Weinyddiaeth Amddiffyn yn o lei gwefan fel gweithgareddau i "hau had".

Grantiau Addysgol ar gyfer myfyrwyr chweched dosbarth, Colegau Addysg Bellach ac Addysg Uwch.

Cynigir grantiau rhwng £1000 - £1,500 i bobl ifanc sy'n astudio Lefel A neu lefel debyg o gymhwyster galwedigaethol mewn ystod o feysydd megis mathemateg, ieithoedd, crefftau adeiladu, cynnal a chadw cerbydau arlwyaeth, nyrsio a pheirianneg.

Darperir grantiau hefyd i fyfyrwyr prifysgolion. Derbynia fyfyrwyr £1,000 y flwyddyn yn ogystal â chael eu talu ar raddfa'r Fyddin Diriogaethol am hyfforddiant yn ystod eu cyfnod yn astudio. Os ydynt yn ymuno yn y fyddin ar ôl graddio cant £3000 yn ychwanegol Rhaid i fyfyrwyr ymrwymo i wasanaethu am o leiaf tair blynedd yn y fyddin

er mwyn cael y grant. Ond mae'r rhai sy'n cael hyfforddiant hedfan oddi wrth yr RAF yn cael cytundeb 12 mlynedd ar ôl graddio oherwydd bod yr Awyrlu wedi buddsoddi gymaint yn ei hyfforddiant.

Unedau Cadetiaid i blant a phobl ifanc

Amcangyfrifir fod 7,000 o bobl ifanc rhwng 12 – 18 oed yn aelodau o'r 106 unedau cadetiaid yng Nghymru. Mwyafrif y rhain yw'r unedau Cadetiaid Awyr (75) ond mae yna hefyd 20 o unedau Morwrol a 6 uned gan y Fyddin a 5 uned gymysg sy'n gysylltiedig ag ysgolion preifat.

Darperir ymarferiadau milwrol i'r unedau Cadét gan gynnwys saethu, drilio a sgiliau arweinyddiaeth. Cynigir hefyd weithgareddau awyr agored anturus megis chwaraeon hyfforddiant cymorth cyntaf a chyfle i fod yn rhan o ddyfarniad Dug Caeredin. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau yn rhad ac am ddim. Nid oes ymrwymiad i ymuno yn y lluoedd arfog.

Unedau Cadét yr Awyrlu yng Nghymru
www.aircadets.org

HQ No 1 Welsh Wing	HQ No 2 Welsh Wing	HQ No 3 Welsh Wing
Air Cadét Centre	Building 29a	Territorial Army Centre,
Caldicot Road	RAF SU Seland	The Grange
Ely	Welsh Road	Westcross
Caerdydd	Glannau Dyfrdwy	Abertawe
CF5 5EH	CH5 2RD	SA3 5AJ
01920 591242	01244 847 502	01792 405 912
whq_1welsh@lineone.net	whq_2welsh@lineone.net	whq_3welsh@lineone.net

Mae yna o leiaf un uned o'r cadéts awyr yn y trefi yma (ceir y cyfeiriadau oddi wrth brosiect y Ddraig Khaki):

Aberconwy	Blaenau Ffestiniog	Glannau Dyfrdwy	Maesteg	Porthcawl
Aberdâr	Pen y Bont ar Ogwr	Dinbych	Merthyr	Prestatyn
Y Fenni	Brynaman	Glyn Ebwy	Yr Wyddgrug	Y Rhyl
Aberkenfig	Caerleon	Eryri	Aberpennar	Risga
Aberporth	Caerffili	Y Fflint	Castell Nedd	Ruthun
Aberystwyth	Caldicott	Hwlffordd	Casnewydd	Sain Tathan
Rhydaman	Caerdydd	Caergybi	Drenewydd	Abertawe
Ynys Môn	Caerfyrddin	Treffynnon	Penarth	Dinbych y Pysgod
Ardudwy	Cefni	Kenfig Hill	Pencoed	Tredegar
Blaena	Cheptow	Knighton	Penfro	Treorci
Bangor	Chirk	Llandrindod	Pontardawe	Trallwng
Y Barri	Bae Colwyn	Llanelli	Pontclun	Hendy-gwyn
Berwyn	Y Bont Faen	Llwchwr	Pontypridd	Wrecsam
Coed Duon	Cwmbrân	Machen	Port Talbot	Ystrad Mynach

Unedau Cadéts y Fyddin yng Nghymru
www.armycadets.com

Clwyd ACF	Dyfed ACF	Glamorgan ACF
Kinmel Park Camp	TA Centre	TA Centre
Ger y Rhyl	Murray Street	Heol West Plas
LL18 5UU	Llanelli	Litchard
01745 583 794	SA15 1BQ	Bridgend CF31 1PA
clwydacf@aol.com	01554 756 777	01656 657 593

3cdtbnrrw@glamacf.fsnet.co.uk

Gwent ACF A Block, Raglan Barracks Casnewydd NP20 5GG 01633 267 077 gwentacf@tiscali.co.uk	Gwynedd ACF The Drill Hall Bethesda LL57 3LY 01248 600 363	Powys ACF The Barracks Aberhonddu LD3 7EA 01874 613 442 www.powysarmycadets.org.uk

Unedau Cadetiaid Morwrol yng Nghymru
www.sea-cadets.org

North West Area HQ Royal Naval Headquarters Merseyside East Brunswick Dock Liverpool L3 4DZ 0151 707 3444	South West Area HQ The Sea Cadets HMS Flying Fox Winterstoke Road Bristol BS3 2NS 0117 953 1991

Mae yna unedau o'r cadetiaid morwrol yn y trefi neu ardaloedd a ganlyn (ceir cyfeiriadau oddi wrth brosiect y Ddraig Khaki):

Aberystwyth	Conwy	Aberdaugleddau	Port Talbot	Y Rhyl
Bari	Abergwaun	Castell Nedd	Porthcawl	Abertawe
Caerdydd	Caergybi	Casnewydd	Pwllheli	Dinbych y Pysgod
Cei Connah	Llanelli	Doc Penfro	Y Rhondda	Torfaen

Royal Marines Reserve
HMS Cambria, Sully, ger Y Barri
Mae uned yn hyfforddi morwyr i ryfela gyda bomiau mor yn Abertawe.

Unedau Cadetiaid Cymysg mewn Ysgolion a Cholegau

Christ College Brecon Aberhonddu LD3 8AF 01874 615 472	Monmouth School Almshouse Street Mynwy NP25 3XP 01600 713 143	St Brigid's School Plas yn Green Mold Road Sir Ddinbych LL16 4BH 01745 815 228
Llandovery College Llanymddyfri SA20 0EE 01550 723 000	Ruthun School Mold Road Ruthun LL15 1EE 01824 702 543	

Swyddfeydd Gyrfaoedd y Lluoedd Arfog

Aberystwyth	Park Road SY23 1PG	01970 148	610
Bangor	TA Centre, Glynne Road, LL57 1AH	01248	362

		889	
Caerdydd	8th Floor, South Gate Hse, 84 Wood Street, CF10 1GR	02920 826	726
Caerfyrddin	108 Lammas Street, SA31 3AP	01276 315	238
Hwlffordd	The Dalton CV Centre, Freemans Way SA61 1TN	01437 329	767
Merthyr Tudful	Bethesda Street, Georgetown CF47 8LF	01685 513	384
Casnewydd	4/5 Kingsway NP20 1EX	01633 306	250
Pontypridd	8 Gelliwasted Road CF37 2BP	01443 189	402
Rhyl	The Drill Hall, John Street LL18 1PP	01745 224	334
Abertawe	17/18 Castle Street SA1 1JF	01792 653362	
Wrecsam	Halkyn House, 21 Rhosddu Road LL11 1NF	01978 508	388

Unedau'r Fyddin Diriogaethol

ABERTILLERY Combat (Artillery)	Cwmcottage Road, Abertillery NP3 1PP Tel: 01495 212500
ABERYSTWYTH TA Medical Services/ Officer	Boulevard St-Brieuc, Park Avenue, Aberystwyth SY23 1PH TA Medical Services Tel: 01970 623256 /029 2056 2291
PEN Y BONT ar OGWR TA Medical Services/ Engineering	Litchard Cross, Pen y Bont ar Ogwr CF31 1JT Tel: 01656 652715
CAERNARFON Combat (Infantry)/ TA Medical Services/Officer	The Barracks, Llanberis Road, Caernarfon LL5 2DE Infantry 01286 673057 TA Medical Services 029 2056 2291
CAERDYDD TA Medical Services/ Combat (Infantry)/Logistics	Maindy Barracks, Whitchurch Road, CaerdyddCF14 3YE TA Medical Services 029 2078 1214 Infantry 029 2078 1307 Logistics 029 2078 1251
CAERDYDD Combat (Artillery)/ IT Comms/Specialist (Intelligence)	Morgan Street, Cardiff CF1 2FG Artillery 01633 840393 IT Comms 53 Signal Squadron 029 2045 2302 Intelligence 0117 986 2122
CAERDYDD TA Medical Services/ Engineering	Gabalfa Avenue, Llandaf, Caerdydd CF4 2HX TA Medical Services 029 2056 2291 / 2057 6215 Engineering 029 2056 2291
CAERFYRDDIN Logistics	Picton Barracks, Picton Terrace, Caerfyrddin SA31 3BS 01267 237 114
BAE COLWYN Combat (Infantry)/ TA Medical Services	Groes Road, Colwyn Bay LL29 8PU Infantry 01492 532304 TA Medical Services 029 2056 2291
CRUCYWEL TA Medical Services	Cwrt-y-Gollen, Crucywel, Powys NP8 1TH 01873 812256 /
CWMBRAN Engineering	Chapman House, Ty Coch Way,Cwmbran NP44 7HB 01633 868373 / 838006
GORSEINON Engineering	Einon House, Park Road, Gorseinon, SA4 2UR 01792 893595
HWLFFORDD Logistics	Dalton VC Centre, Freemans Way, Hwlffordd SA61 1TN 01437 763254
TREFYNWY Engineering	The Castle, Trefynwy NP5 3BS 01600 712935
TREFYNWY Engineering	Vauxhall Camp, Trefynwy NP5 3BS 01600 772362
CASNEWYDD TA Medical Services/ Combat (Artillery/SAS)/ Specialist (Band)	Raglan Barracks, Casnewydd NP9 5XE TA Medical Services 01633 215950 / 029 2056 2291 Artillery 01633 840393 / 840443 SAS 01633 214061 Band 01633 265718
QUEENSFERRY Combat (Infantry)/ TA Medical Services	Harry Weale Hall, Station Road, Queensferry CH5 2TE Infantry 01244 816873 TA Medical Services 029 2056 2291
PONTYPRIDD Combat (Infantry)	The Broadway, Pontypridd CF37 1BW 01443 403095
PRESTATYN Engineering	Marine Road, Prestatyn LL19 7HA 01745 854860
ABERTAWE TA Medical Services/ Combat (Infantry)	Alamein Road, Morfa, Abertawe SA1 2HP TA Medical Services 01792 476495

	Infantry 01792 476546
ABERTAWE Logistics/Officer	The Grange, Blackpill, Abertawe SA3 5AD Logistics 01792 401528 Officer 029 2034 0242
ABERTAWE Engineering	John Chard VC House, Glamorgan Street, Abertawe SA1 3SY 01792 459727
WRECSAM Combat (Infantry)/ Engineering	Hightown Barracks, Wrecsam LL13 8RD Infantry 01978 316126 Engineering 01978 364711

Gwybodaeth

Cyllid Ymchwil

Gwaria llywodraeth Prydain tua £2.6 billion y flwyddyn ar ymchwil a datblygu (Y&D), ac mae bron 30% yn cael ei wario gan y Weinyddiaeth Amddiffyn ar ymchwil milwrol.

Cynllunnir agenda gwariant y Weinyddiaeth Amddiffyn ar ymchwil milwrol gan drefn gymhleth o grwpiau ymgynghorol sy'n gysylltiedig â'r Weinyddiaeth Amddiffyn a hefyd yr Adran Fasnach a Diwydiant Cynrychiola'r grwpiau yma'r llywodraeth a diwydiant gan gynnwys *BAE Systems* ac *Airbus* ac eraill.

Prif ffynonellau cyllido'r llywodraeth Brydeinig ar ymchwil milwrol yw:

- Labordy Gwyddoniaeth a Thechnoleg Amddiffyn (DSTL)
- Y Cydgynllun Grantiau
- Partneriaethau rhwng diwydiant, prifysgolion a'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

Ffynonellau eraill ar gyfer cyllido ymchwil milwrol yw llywodraethau tramor, NATO; a chwmnïau Prydeinig a rhyngwladol sy'n cyllido swyddi prifysgol yn ogystal â phrosiectau. Mae'r adroddiad yma yn canolbwyntio ar ffynonellau Prydeinig o gyllido. Bydd gwybodaeth am ffynonellau eraill cyllido yn cael ei chyhoeddi ar ein gwefan.

Labordy Gwyddoniaeth a Thechnoleg Amddiffyn *(DSTL)*

Daeth y Labordy Gwyddoniaeth a Thechnoleg Amddiffyn i fodolaeth pan rannwyd yr Asiantaeth Gwerthuso Ymchwil Amddiffyn (DERA) mewn i'r Labordy Gwyddoniaeth a Thechnoleg Amddiffyn a *QinetiQ* sy'n gwni hanner preifat. Mae'r Labordy Gwyddoniaeth a Thechnoleg Amddiffyn yn cyflogi ei wyddonwyr ymchwil ei hun a hefyd yn cyllido ymchwil mewn prifysgolion. Mae *QinetiQ* hefyd yn cynnig cytundebau ymchwil i brifysgolion ac i gwmnïau eraill ac yn cynnig ysgoloriaethau i fyfyrwyr gwyddoniaeth a thechnoleg.

Y Cydgynllun Grantiau (*The Joint Grants Scheme)*

Dosberthir arian y llywodraeth i ymchwil o bob math gan saith prif gyngor ymchwil ym Mhrydain gan gynnwys ymchwil gwyddonol meddygol, cymdeithasegol a'r dyniaethau. Drwy'r cydgynllun grantiau mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cysylltu gyda'r cynghorau ymchwil perthnasol i gyllido ymchwil sydd yn berthnasol i'r lluoedd arfog.

Partneriaethau rhwng diwydiant, prifysgolion a'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

Pwrpas y partneriaethau yma yw meithrin datblygiad strategol gwyddoniaeth a thechnoleg Brydeinig i gyflenwi anghenion milwrol. Mae'r canlynol yn cynnwys prifysgolion yng Nghymru.

- Partneriaethau Ymchwil Amddiffyn ac Awyrofod.(DARPS)
Canolbwyntia fwy na 12 o'r partneriaethau yma ar wahanol feysydd ymchwil mewn mwy nag un brifysgol. Cyllidir y rhain gan Gyngor Ymchwil y Gwyddorau Peirianyddol a Ffisegol (EPRSC), er y maent yn cael ei harwain gan ddiwydiant.

Mae'n ymddangos fod Coleg y Brifysgol Abertawe yn ymwneud a dau o'r partneriaethau yma ,un a arweinir gan *Rolls Royce* sy'n ymchwilio i ddeunyddiau peiriannau awyrennau tra bod y llall yn cael ei arwain gan *BAE Systems* sy'n ymchwilio i ymasiad synhwyraidd a data .

- Canolfannau Technoleg Amddiffyn (DTC)
Sefydlwyd tri chanolfan technoleg amddiffyn hyd yn hyn. Rhoddir £5miliwn y flwyddyn yr un gan y Weinyddiaeth Amddiffyn dros y 3-5 mlynedd nesaf gyda chyllid pellach yn dod oddi wrth y consortiwm o gwmnïau a phrifysgolion sy'n gyfrifol am y canolfannau yma.

Mae Prifysgol Caerdydd yn rhan o Ganolfan Technoleg Amddiffyn sy'n cael ei arwain gan *General Dynamics* sy'n canolbwyntio ar ymasiad synhwyraidd a data

- Canolfan Technoleg Prifysgol (UTC)
Cefnoga *Rolls-Royce* 20 Canolfan Technoleg oddi fewn Prifysgolion Prydeinig sy'n gweithio ar dechnoleg sy'n berthnasol i amddiffyn. Mae Prifysgol Caerdydd yn bartner yn un o'r canolfannau yma.

Mae'r maes ymchwil yn newid yn barhaus wrth i brosiectau orffen a grantiau yn cael ei derbyn ar gyfer ymchwil newydd. Pwrpas y tabl isod yw rhoi ryw syniad o faint y grantiau a dderbynnir a'r math o ymchwil a wneir yn ystod cyfnod o bum mlynedd.

Cyllido Prydeinig ar gyfer ymchwil milwrol mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

2002 – 2005 (heblaw * 1999 – 2002)

	DSTL	Cyd Grant	Cyfanswm	Partneriaethau
CPC Caerdydd	584,000	430,000	1,014,000	DTC, UTC
CPC Abertawe	150,000*	235,000	385,000	DARP
CPC Bangor	85,000	200,000	285,000	
CPCAberystwyth	20,000		20,000	
CP. Morgannwg	20,000		20,000	
N E W I	7,000		7,000	
	866,000	*865,000*	*1,731,000*	

Dyfarniadau ymchwil Prifysgol Caerdydd 2000 – 2005

Adran	*Ymchwil*	*gwerth £*
Biosciences	Ultrasound concentration cell for use with the metal clad leaky waveguide (MCLW) instrument.	30 000
Biosciences	Cell disruption in small volumes by ultrasonic cavitation.	71 616
Biosciences	Unltrasonic disruption of vegetative bacterial cells and spores.	83 018
Biosciences	Development of methods for the concentration of bacteria and effecting bacteria wall contact in a flow liquid using ultrasonics.	37 488

Cemeg	Non-corrosive surface active catalysts in chemical weapons decontamination.	154 883
Peirianneg	Summarise the existing literature on blunt trauma.	40 000

Joint Grants Scheme

Chemistry	Detection of chemical warfare agents.	304 666
Engineering	Wear process of worm gears.	79 238
	Cyfanswm	*800 909*

<u>Dyfarniadau ymchwil Prifysgol Aberystwyth 2000 – 2005</u>

Y grant o £20,000 a gafwyd oddi wrth Labordy Gwyddoniaeth a Thechnoleg Amddiffyn y soniwyd amdano uchod ac ysgoloriaeth PhD ar gyfer *'Legged Surveillance Vehicle Locomotion over Uneven Ground'.*

Diwydiant Milwrol

